# Canllaw Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion o Gwmpas Cŵn

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad y cymeradwywyd gan y bwrdd gweithredol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 23 Ebrill 2025 | 23 Ebrill 2028 |

## 1. Diben y canllawiau ymarfer

Nod y canllaw amlasiantaethol hwn yw darparu dull rhanbarthol a chyson o ddiogelu plant ac oedolion o amgylch cŵn.

Gall cŵn fod yn gyfeillion gwerthfawr a chwarae rhan bwysig mewn cymdeithas a bywyd teuluol. Fodd bynnag, bu digwyddiadau yng Nghymru a Lloegr pan gafodd plant ac oedolion eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol gan gŵn o fewn a thu allan i'r cartref. Yn 2022, bu naid sydyn yn nifer y bobl yng Nghymru a Lloegr a fu farw oherwydd anafiadau brathiadau cŵn. Mewn blwyddyn arferol, mae tri ymosodiad angheuol; yn 2022, roedd cyfanswm y marwolaethau yn ddeg. Roedd pedwar o'r dioddefwyr yn blant (BMJ, 2023).

Bwriad y canllaw hwn yw darparu offeryn cyfeirio defnyddiol i unrhyw ymarferwyr sy'n gweithio'n agos gyda phlant, teuluoedd neu oedolion sydd mewn perygl. Mae'r canllaw yn ceisio egluro a disgrifio'r canlynol:

- Y plant a'r oedolion sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i niwed a'r cŵn sydd fwyaf tebygol o fod yn beryglus.
- Cyngor y gellir ei roi i deuluoedd ynghylch atal anafiadau o ganlyniad i frathiadau neu ymosodiadau gan gŵn.
- Yr wybodaeth y dylid ei chasglu pan fydd unrhyw blentyn neu oedolyn yn cael ei anafu gan gi.
- Asesiad risg effeithiol a'r meini prawf a ddylai ysgogi camau gweithredu, gan gynnwys adroddiad diogelu.

## 2. Cŵn peryglus

Mae Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn darparu gwybodaeth fanwl iawn am y ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu rhai mathau o gŵn, cyfrifoldebau perchnogion, a'r camau y gellir eu cymryd er mwyn cael gwared ar gŵn a/neu eu rheoli.

O 13 Mai 2014 ymlaen, estynnwyd adran 3 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 i gynnwys y drosedd o fod yn gyfrifol am gi sydd allan o reolaeth yn beryglus mewn man cyhoeddus i 'unrhyw le yng Nghymru neu Loegr', sy'n cynnwys lleoedd preifat.

Yn y DU, mae yn erbyn y gyfraith bod yn berchen ar rai mathau o gŵn oni bai fod gan y perchennog dystysgrif eithrio. Y cŵn hyn yw: daeargi pydew, Tosa Siapaneaidd, Dogo Argentino, Fila Braziliero, ac XL Bully. Os oes gan unrhyw asiantaeth unrhyw wybodaeth neu adroddiad am gi o'r math hwn, dylid rhoi gwybod i'r heddlu ar unwaith drwy ffonio 101. Gall yr heddlu yna gynnal gwiriadau perthnasol ynghylch amgylchiadau perchnogaeth o'r fath a gwirio unrhyw esemptiad.

Fodd bynnag, gall **unrhyw gi**, waeth beth fo'i frîd, fod yn 'beryglus' (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf) os yw eisoes wedi bod yn hysbys am achosi neu fygwth anaf.

Mae anafiadau a achosir gan rai mathau o gŵn yn debygol o fod yn hynod ddifrifol a niweidiol. Bydd cŵn cryf, pwerus tebyg i'r daeargi pydew yn aml yn defnyddio eu genau cefn (yn hytrach na 'chnoi') a'u cyhyrau gwddf pwerus i ysgwyd eu dioddefwyr yn gryf wrth afael.

Pan gysylltir adroddiadau am gŵn 'gwaharddedig' a chŵn y mae'n hysbys eu bod yn beryglus neu y gallent fod yn beryglus â phresenoldeb plant ac oedolion, dylai pob asiantaeth fod yn effro i'r risgiau a'r canlyniadau posibl.

## 3. Asesu risg

Mae manteision bod yn berchen ar anifeiliaid anwes wedi'u hen sefydlu. Gall cael anifail anwes fod â manteision corfforol ac emosiynol i blentyn ac oedolion yn ogystal â'u dysgu am gyfrifoldeb a gofalu am greaduriaid byw. Fodd bynnag, mae risgiau hefyd, a phan fyddwch chi'n ymweld â theulu sydd â chi neu'n gweld ci yn y gymuned, mae angen i chi ystyried a yw'r ci yn peri unrhyw fygythiad i iechyd, datblygiad neu ddiogelwch y plentyn neu'r oedolyn a/neu'n risg i'r gweithiwr proffesiynol sy'n ymweld.

Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â theulu sydd â chŵn bwysleisio pwysigrwydd sicrhau nad yw babanod, plant ifanc ac oedolion agored i niwed **byth** yn cael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda chi, ni waeth pa mor gyfarwydd yw'r ci i'r teulu, a sicrhau bod y cyngor a roddir wedi'i ddogfennu yng nghofnodion perthnasol y plentyn/oedolyn.

Mae ystod o wahanol adnoddau ar gael i weithwyr proffesiynol ynglŷn â chadw plant yn ddiogel rhag cŵn y gallant gyfeirio pobl atynt (Atodiad 1). Rhaid nodi nad oes unrhyw adnoddau y gellir eu canfod ar gyfer oedolion ag anghenion gofal a chymorth.

Mae pob plentyn ac oedolyn o bosibl yn agored i ymosodiad(au) gan gi (gŵn).

- Plant ifanc a bach iawn sy'n debygol o fod mewn mwyaf o berygl.
- Mae oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed.
- Efallai na fydd plentyn ifanc a rhai oedolion yn ymwybodol ac yn amharod ar gyfer y peryglon posibl y gallent eu hwynebu.
- Efallai y bydd plentyn ifanc yn llai abl i amddiffyn ei hun ac yn fwy tebygol o fod o faint sy'n gadael rhannau o'i gorff hynod agored i niwed yn agored i unrhyw 'ymosodiad'.
- Ci mawr mewn cartref bach.
- Ci wedi'i adael ar ei ben ei hun gyda'r plentyn neu oedolion ag anghenion gofal a chymorth neu oedolyn mewn perygl.

Os ydych chi'n ystyried bod ci yn berygl difrifol i blentyn neu oedolyn, rhaid i chi gysylltu â'r heddlu ar unwaith.

Yn ogystal â'r uchod, dylai ymarferwyr fod yn ymwybodol o unigolion a theuluoedd a allai fod yn berchen ar neu'n bridio mwy nag un ci. Dylid cynnal craffu ychwanegol mewn perthynas ag aelwydydd sy'n ymwneud â bridio a chadw heidiau o gŵn yn rheolaidd, gan y gallai risg ychwanegol fod yn bresennol.

### 3.1 Perchnogion a theuluoedd (gan gynnwys teulu estynedig a gofalwyr dros dro)

Efallai y bydd rhai pobl yn mynnu mai 'y perchennog, nid y ci' yw'r broblem. Bydd achlysuron pan fydd hyd yn oed y perchnogion 'gorau' yn methu â rhagweld neu atal ymddygiad eu ci. Bydd gofal, rheolaeth a chyd-destun amgylchedd ci yn ddiamau yn effeithio ar ei ymddygiad a'r risgiau posibl.

Mae ymchwil yn dangos bod cŵn sydd wedi'u hysbaddu yn llai tebygol o fod yn diriogaethol ac ymosodol tuag at gŵn a phobl eraill.

Perchnogion:

- Efallai fod gan berchnogion sy'n gysylltiedig â gweithgaredd troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau neu drais reswm i annog ymddygiad ymosodol gan gŵn.
- Mewn rhai achosion, bu digwyddiadau lle mae perchnogion wedi annog ymddygiadau ymosodol gan y ci. Bu gan rai o'r perchnogion hyn gysylltiadau â gweithgareddau troseddol a rhai heb.

Mae teuluoedd sy'n profi lefelau uchel o ymddygiad ymosodol a thensiynau domestig:

- Yn fwy tebygol o sbarduno cyffro ac ymosodiadau posibl gan gŵn.
- Yn llai tebygol o werthfawrogi a rhagweld risgiau.
- Efallai yn llai tebygol o gymryd y rhagofalon angenrheidiol.
- Efallai yn llai tebygol o sicrhau diogelwch y bobl ifanc fwyaf agored i niwed.
- Mae plant ifanc iawn, bach sy'n byw mewn teuluoedd anhrefnus neu gamweithredol yn debygol o fod yn hynod agored i niwed.
- Cŵn gwaharddedig, peryglus a phwerus sy'n debygol o achosi'r anafiadau mwyaf difrifol.

(Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014)

### 3.2 Canllawiau ymarferwyr

Mae'r RSPCA yn cynnig y cyngor canlynol i bob gweithiwr proffesiynol sydd mewn cysylltiad ag aelwyd lle mae ci/cŵn yn bresennol:

*"Wrth edrych ar gi, neu ofyn amdano, meddyliwch am y pwyntiau canlynol, na ddylid eu hystyried yn rhestr gynhwysfawr ond sydd wedi'u bwriadu i ysgogi chwilfrydedd gweithiwr proffesiynol ynghylch cyflwr lles y ci ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu."*

Mae'r pwyntiau'n ymwneud ag adran 9 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, sy'n gosod dyletswydd gofal ar berson sy'n gyfrifol am anifail yn barhaol neu dros dro. Mae'r ddyletswydd gofal hon yn ei gwneud yn ofynnol bod camau rhesymol yn cael eu cymryd ym mhob amgylchiad i sicrhau bod anghenion lles anifail yn cael eu diwallu i'r graddau sy'n ofynnol gan arferion da. Yr anghenion lles yw:

- Yr angen am amgylchedd addas.
- Yr angen am ddeiet addas.
- Yr angen i allu arddangos patrymau ymddygiad arferol.
- Yr angen i gael ei gartrefu gyda, neu ar wahân i, anifeiliaid eraill.
- Yr angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd.

Yn ystod yr ymweliad, gofynnwch a oes ci yn yr eiddo, gan gynnwys yn yr ardd gefn. Os oes, ac nad yw'r ci yn yr un ystafell â chi, gofynnwch am weld y ci. Dylai unrhyw asiantaeth sy'n ymwybodol o gi a allai fod wedi'i wahardd neu ei ystyried yn beryglus gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl:

- Enw a brîd y ci.
- Y perchennog.
- Y rheswm dros gadw'r ci (mae cŵn sy'n cael eu cadw a/neu eu bridio at ddiben ymladd, amddiffyn neu fygwth yn debygol o gyflwyno mwy o risgiau nag anifeiliaid anwes dilys).
- Unrhyw blant neu oedolion yn y cartref (yn enwedig plant ifanc ac oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth).

Dylid cofnodi'r wybodaeth hon gyda'r heddlu drwy ffonio 101 a'i rhannu gyda'r RSPCA.

Dylid rhannu gwybodaeth yn briodol hefyd gyda gwasanaethau plant ac oedolion os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon am blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl, gan wneud atgyfeiriadau yn ôl yr angen (fel y manylir isod).

**4. Pryd i wneud adroddiad/atgyfeiriad**

Dylai pob asiantaeth ystyried gwneud adroddiad/atgyfeiriad at wasanaethau plant pan gaiff adroddiad am blentyn yn cael ei anafu (neu wedi bod mewn perygl o gael ei anafu) gan gi ei lunio. Yn yr un modd, dylid ystyried adroddiad/atgyfeiriad i wasanaethau oedolion os adroddir bod oedolyn sydd mewn perygl wedi cael ei anafu neu wedi bod mewn perygl o gael ei anafu gan gi. Wrth benderfynu a ddylid gwneud adroddiad/atgyfeiriad, dylid ystyried:

- Natur yr anafiadau
- Amgylchiadau'r ymosodiad/digwyddiad
- Oedran y plentyn (cronolegol a datblygiadol)
- Pa mor agored i niwed yw'r oedolyn
- A wnaeth y rhieni / y gofalwr / perchennog y ci geisio cyngor/triniaeth feddygol
- A yw'r ci wedi dangos unrhyw ymddygiad ymosodol o'r blaen
- Pa gamau y mae'r rhieni / gofalwyr / perchennog y ci wedi'u cymryd i atal unrhyw beth rhag digwydd eto

Efallai y bydd rhai adroddiadau/atgyfeiriadau yn cael eu cofnodi 'er gwybodaeth' yn unig gan yr asiantaethau, os yw wedi'i sefydlu'n glir nad oes unrhyw risg sylweddol neu barhaus yn debygol i'r plentyn, na phlant/oedolion eraill (er enghraifft, os yw'r ci eisoes wedi'i 'roi i gysgu' neu ei symud).

Efallai y bydd rhai adroddiadau/atgyfeiriadau yn ysgogi taflenni gwybodaeth (Atodiad 1).

Mewn achosion mwy difrifol, byddai ymholiadau cychwynnol, asesiadau neu ymchwiliadau adran 47 ar y cyd yn arwain at drafodaethau pellach gydag asiantaethau eraill:

- Ymweliadau cartref i gwblhau asesiadau mwy llawn ac i lywio barn ar allu rhianta/gofalu a gofal a rheolaeth ci (cŵn).
- Efallai y ceisir cyngor gan filfeddyg i helpu i benderfynu ar natur neu lefel y risg debygol a gyflwynir gan y ci (cŵn).

**5. Cyfeiriadau**

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Adolygiad cyflym o farwolaethau plant o ganlyniad i frathiadau neu ymosodiadau cŵn www.gov.uk/control-dog-public

BMY (2023) Marwolaethau, anafiadau, a chostau GIG cynyddol: brathiadau cŵn fel problem iechyd cyhoeddus Rising fatalities, injuries, and NHS costs: dog bites as a public health problem | The BMJ

Ffurflen Asesu Cŵn CoramBAAF

**Atodiad 1**

## Adnoddau ychwanegol

Dyma restr o adnoddau sy'n rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol a theuluoedd ar gyfer cadw plant yn ddiogel o amgylch anifeiliaid anwes. Ystyriwch pa un sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer eich gwaith ac, os yw'n berthnasol, pa un sy'n briodol i'w gyflwyno i'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw.

Cadw babanod a phlant yn ddiogel o amgylch cŵn yn y cartref (Sefydliad Ymwelwyr Iechyd)

Y chwe rheol aur i gadw plant yn ddiogel a chŵn yn hapus (RSPCA)

Cadw'n ddiogel gyda chŵn (Dogs Trust)

Bod yn ddiogel o gwmpas cŵn (Blue Cross)

Cŵn a Phlant: Yr awgrymiadau gorau i'w cadw'n ddiogel ac yn hapus gyda'i gilydd (Child and Accident Prevention Trust)

Taflen ffeithiau – eich ci a'ch babi (Child and Accident Prevention Trust)

Taflen ffeithiau – diogelwch plant o amgylch cŵn (Child and Accident Prevention Trust)